| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 13 Gorffennaf 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Ivan Butler – Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Ivan Butler – Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **Teitl:** | Cynllun Sicrwydd Archwilio Mewnol Diwygiedig 2016/17 |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r Pwyllgor â Chynllun Sicrwydd Blynyddol Archwilio Mewnol diwygiedig ar gyfer Gorffennaf 2016 i Fawrth 2017. Mae'r Cynllun yn darparu manylion y prosiectau Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer gweddill y flwyddyn a fydd yn caniatáu i'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi 'barn' ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynllun gwreiddiol ym mis Ebrill 2016 ond o ganlyniad i absenoldeb mamolaeth sydd ar y gweill o fewn y gwasanaeth, mae angen cyflwyno Cynllun diwygiedig i'w ystyried.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo Cynllun Sicrwydd Blynyddol Archwilio Mewnol Diwygiedig 2016-17 (Atodiad 1)

**4. Manylion yr Adroddiad**

Gweler Atodiad 1 ar gyfer y Cynllun diwygiedig. Bydd y cynllun gwaith arfaethedig yn caniatáu i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu 'barn' gyffredinol yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2016-17. Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau diweddaru rheolaidd ar gynnydd darparu'r Cynllun.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn. Nid oes cyfraniad uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol, ond bydd rhai prosiectau yn y Cynllun yn adolygu meysydd Blaenoriaeth Corfforaethol ac yn darparu sicrwydd ar eu darpariaeth.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cyfarfod â thimau rheoli'r holl wasanaethau i drafod gwaith arfaethedig Archwilio Mewnol ar gyfer y Cynllun gwreiddiol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Gall methu â chyflwyno lefel ddigonol o archwilio mewnol olygu na all y Pennaeth Archwilio Mewnol roi 'barn' flynyddol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith y Cyngor ar gyfer llywodraethu, risg a rheolaeth yn ystod y flwyddyn. Byddai hyn o bosibl yn arwain at broblem llywodraethu sylweddol yn cael ei chodi yn 'natganiad llywodraethu blynyddol' y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.